

## Medi

- 7 *Parch John R Jenkins, Llanon*
- 14 *Miss Hilda Harries*
- 21 *Bugail (Cymun yn oedfa'r bore)*
- 28 *Mr Raymond Davies*  
*Bugail*

### *Grŵp Help Llaw*

Dim ond cwrdd yn achlysurol fydd y grŵp yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst gydag ambell de yn yr ardd ac ati. Byddwn yn cwrdd yn wythnosol ar brynhawn Mercher o ddechrau Medi ymlaen oddieithr y prynhawniau pan fydd Cymdeithas y Chwirydd yn cynnal cyfarfodydd. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni.

### *Mynwent y Garn*

#### *Cronfa Cyrbio'r Llwybrau*

Mae'r gwaith o osod cyrbiau bob ochr i'r llwybrau yn rhan uchaf y fynwent wedi ei orffen. Bydd ail ran y gwaith, sef y prif lwybrau, yn cychwyn y mis hwn. Diolchwn am y cyfraniadau a gafwyd hyd yma tuag at y gwaith. Mae'r cyfanswm wedi cyrraedd dros £1,400 tuag at y gost o £2,600.

Dymuna Mr Eddie Jones, Gofalwr y Fynwent, ddiolch am eich cefnogaeth. Mae rhestr o'r cyfranwyr i'w gweld yng nghynteddau Capel y Garn ac yn y Ffestri.


Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 7 Medi i:

Mr Dewi G Hughes  
Bod Hywel  
(828026)  
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes  
14 Maes y Garn  
(828662)  
Marian\_Hughes@btinternet.com

# GAIR O'R GARN

CYLCHLYTHYR  
EGLWYS Y  
GARN,  
BOW STREET



Rhif 10  
Haf 2003

*Duw cariad yw*

*Gweinidog*  
Parch R W Jones  
Haddef  
6 Maes Afallen  
Bow Street  
 (01970 828006)

*Ysgrifennydd*  
Mr Eddie Jenkins  
Eryl  
Llandre  
Bow Street  
(01970 828147) 

### *Gair gan y Gweinidog*

Annwyl Gyd-aelodau

Profiad rhyfedd yw ysgrifennu'r geiriau hyn a minnau heb fod yn eich plith am ragor na deufis. Fel y gwyddoch, bûm yn yr ysbyty ym Mangor yn dilyn fy namwain gyda'r beic modur. A minnau wedi bod mewn degau o wahanol ysbytai dros y blynyddoedd yn gweld cannoedd o wahanol gleifion, profiad newydd hollol i mi oedd treulio bron i bythefnos mewn ysbyty fel un o'r cleifion. Rhoddwyd imi olwg newydd ar y gweithgarwch a'r gofal sydd mewn ysbyty ac fe werthfawrogaf, mewn ffordd wahanol erbyn hyn, yr holl gonsŷrn. Ni ellir, mewn tipyn o eiriau, mynegi fy niolch i chwi fel aelodau'r Garn a'r ofalaeth, a chylch ehangach hefyd, am eich gofal – yr ymweliadau, y galwadau ffôn, y cardiau di-rif, yn ogystal â'ch gweddïau drosaf. Carwn ddiolch o galon i'r aelodau, yn enwedig i'r Swyddogion, am ysgwyddo'r baich ychwanegol mor rasol a dirwgnach. Mae'r anafiadau allanol yn gwella'n dda ond mae'r rhai mewnol yn cymryd dipyn yn hirach. Mae'n dda gennyf ddweud, fodd bynnag, fod yr arbenigwr yn Ysbyty Gwynedd wedi rhoi caniatâd i mi ailgydio yn y gwaith, ond fod yn rhaid cymryd pethau'n weddol dawel am beth amser.

Edrychaf ymlaen, felly, at fod yn eich plith, oherwydd sylweddolaf fod pobl yn glaf ac mewn ysbytai, fod aelodau wedi colli anwyliaid – a minnau wedi teimlo'n gwbl ddiymadferth i wneud dim. Ond mae fy nghydymdeimlad, fy nghofion a'm gweddïau wedi bod gyda chwi.

Gan edrych ymlaen at ailafael yn y gwaith a chyda fy niolch cywiraf,

Boed bendith,

*Robert W. Jones*

Cynhelir yr oedfaon am 10 a 5 o'r gloch.

Ysgol Sul y plant a'r ieuencid am 10 o'r gloch.

Ysgol Sul i oedolion ym Methlehem, Llandre am 2 o'r gloch.

Yn dilyn oedfa'r bore, mae gwahoddiad cynnes i bawb gymdeithasu dros gwpanaid o de neu goffi – yr elw at gronfa'r adeiladau.

### **Gorffennaf**

**6** *Mr Lyn Lewis Dafis*

Gŵyl yr ysgolion Sul yng Nghapel Afan, Llanafan – gwasanaeth dan ofal y Parch Gwyn Rhydderch, Trefnydd Gwaith Plant Eglwys Bresbyteriaidd Cymru am 2.30 o'r gloch

Cymanfa Ganu Fodern dan nawdd Cymdeithas Cymry Llundain Ceredigion yn y Garn am 6 o'r gloch  
Arweinydd: Mrs Eirwen Hughes; Organydd: Mr Brian Jones  
Yr elw tuag at Gapel y Garn

**13** *Mr Arwyn Pierce*

19 Barbeciw'r Capel yng Gwyniarth, Taigwynion, Llandre am 6 o'r gloch; trefnwyr Penri a Llio James  
Yr elw tuag at Gapel y Garn

**20** *Bugail* (Cymun yn oedfa'r hwyr)

25 Pwyllgor Blaenoriaid

**27** *Parch Wiliam Owen*

*Bugail* (Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre)



### **Awst**

**3** *Parch Gareth Watts* – uno â'r Noddfa yn oedfa'r bore  
*Parch A O Roberts*

**10** Oedfaon i'w trefnu – Noddfa yn uno â'r Garn

**17** *Parch O T Evans* – uno â'r Noddfa yn oedfa'r bore  
*Parch Lewis Wyn Daniel*

**24** *Mr Walford L. Gealy* – Noddfa yn uno â'r Garn

**31** *Dr Terry Edwards*